# DAVIES, THOMAS RHYS (1790 - 1859), gweinidog y Bedyddwyr

**Enw:** Thomas Rhys Davies
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1859
**Priod:** Ann Davies (née Foulks)
**Rhiant:** Dafydd Dafis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Lewis Edward Valentine

Ganwyd ym Mhenwenallt, Cilgeran, 19 Mai 1790, mab Dafydd Dafis, Tre-fawr, Llanfyrnach. Cafodd addysg gan Dafydd Stephen yn y Capel Bach, Llechryd; gan Walters, mab offeiriad Llanfihangel-Pen-Fedw; ac yn ysgol y Parch. Evan Jones yn Aberteifi. Bedyddiwyd ef yn 1806 yn afon Morgeneu, a dechreuodd bregethu ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn. Ymwelodd a Gogledd Cymru yn 1811, a phregethu yng nghymanfa Amlwch, ac ar anogaeth daer Christmas Evans daeth i Lansantffraid Glan Conwy a'r Rowen yn 1812, ond yn ei fam-eglwys yng Nghilfowyr yr ordeiniwyd ef yn 1814. Dwy eglwys oedd yn ei gylchdaith yn y Gogledd y pryd hynny, a 35 aelod ar wasgar mewn 12 plwyf, 'ond yr oeddym yn pregethu,' ysgrifennai mewn darn o hunangofiant, 'mewn llawer iawn a dai ffermwyr a phobl gyffredin, a drysau agored ym mhob ardal, fel y buwyd am rai blynyddoedd heb braidd gysgu dwy noswaith nesaf i'w gilydd yn yr un gwely, gan lafur gwastadol,...a bûm ym mhob afon, a llyn, a nant o Gonwy i Lansannan, ac o Lanrwst i'r Bontnewydd, o fôr Llandudno i fynydd Berwyn, yn cysegru eu holl ddyfroedd.' Yn 1814 priododd Ann Foulks o'r Beniarth yn Llandrillo-yn-Rhos, merch o deulu cefnog a chlyd ei hamgylchiadau, a gallodd yntau oherwydd y briodas hon roddi benthyciadau arian i'r llu eglwysi bychain a sefydlwyd ganddo i godi capelau yng ngorllewin Dinbych a Sir y Fflint. Bu ffrwgwd rhyngddo ag eglwys Glanwydden yngl n ag eiddo, ac ymadawodd yntau â'r Bedyddwyr yn 1818 ac ymuno â'r Wesleaid, ond dychwelodd at ei hen enwad yn 1826. Bu yng Nglynceiriog (1827-9), yn Lerpwl yn Heol Stanhope a chodi capel yno (1829-35), ac yng Nghilgeran (1835-43). Dychwelodd i'r Gogledd i fyw yng Nglanwydden yn 1843, ac ymroi i'w hoff waith o bregethu teithiol, ac ar daith felly y bu farw yn Abertawe, 26 Mehefin 1859; claddwyd ef ym medd Christmas Evans. Pregethodd 13,145 o weithiau.

## Awdur

**Y Parchedig Lewis Edward Valentine**, (1893 - 1986)

## Ffynonellau


H. W. Hughes, *Cofiant y diweddar Barch. Thomas Rees Davies, Glanwydden*

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96), iii, 268


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734525

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu